Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Adroddiad Monitro Masnach Ryngwladol

Hydref

2022 – Rhifyn 1

## Cynnwys


**Cyflwyniad ..... 2**

**1. Masnach Ryngwladol ..... 2**

1.1. Datblygiadau allweddol ..... 2

1.1.1. Allforion bwyd a diod o Gymru wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed yn 2021 ..... 2

1.1.2. Trafodaethau'r DU ynghylch cytundebau masnach rydd ..... 3

1.1.3. Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno ynghylch sefydlu porthladdoedd rhydd yng Nghymru ..... 3

1.2. Diweddariadau eraill ..... 4

# Cyflwyniad

Mae gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gylch gwaith eang sy'n cwmpasu ystod eang o feysydd. Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am ddatblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor ym maes masnach ryngwladol. Mae hyn yn cynnwys datganiadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â chyrff cyhoeddus, partneriaid cyflawni a rhanddeiliaid. Bydd cyhoeddiadau perthnasol gan Ymchwil y Senedd hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mae’r Pwyllgor yn ystyried y materion hyn ac unrhyw gamau y mae'n dymuno eu cymryd wrth ymateb iddynt. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi 2022.

# 1. Masnach Ryngwladol

Mae'r adran hon yn crynhoi'r datblygiadau masnach diweddaraf ac yn rhestru gwybodaeth bwysig.

## 1.1. Datblygiadau allweddol

### 1.1.1. Allforion bwyd a diod o Gymru wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed yn 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data allforio newydd sy’n dangos bod allforion bwyd a diod o Gymru wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed yn 2021, gwerth cyfanswm o £641 miliwn. Dyma oedd y categorïau allforio gwerth uchaf ar gyfer 2021: cig a chynhyrchion cig, grawnfwydydd a pharatoadau grawnfwyd, a chynnyrch llaeth ac wyau adar. Roedd wyth o'r deg prif gyrchfan allforio bwyd a diod o Gymru o fewn yr UE, a'r ddwy wlad oedd y tu allan i'r UE oedd UDA a Saudi Arabia. Iwerddon oedd y gyrchfan â'r gwerth uchaf o hyd ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru, gyda gwerth o £113 miliwn. Roedd y cyrchfannau gwerth uchel eraill yn cynnwys Ffrainc (£100 miliwn), yr Iseldiroedd (£49 miliwn) a'r Almaen (£44 miliwn).

### 1.1.2. Trafodaethau'r DU ynghylch cytundebau masnach rydd

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn negodi nifer o gytundebau masnach rydd gyda gwledydd ledled y byd. Mae'r rhain yn cynnwys ehangu, neu ddisodli, cytundebau 'treigl' presennol gyda gwledydd yr oedd gan y DU gytundebau â hwy yn ystod y cyfnod pan oedd yn aelod o'r UE, fel Mecsico ac Israel. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn trafod cytundebau newydd sbon sy'n cynnwys Cyngor Cydweithrediad y Gwlff ac India.

Llofnododd y DU ei chytundebau masnach rydd newydd cyntaf ag Awstralia a Seland Newydd ym mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022, yn y drefn honno. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hasesiad o'r cytundeb ag Awstralia ym mis Mai, a'i hasesiad o'r cytundeb â Seland Newydd ym mis Gorffennaf. Mae'r ddau asesiad yn nodi bod y cytundebau yn rhoi cyfleoedd i fusnesau o Gymru o ran gwasanaethau a symudedd. Fodd bynnag, maent hefyd yn codi pryderon am yr effaith bosibl ar amaethyddiaeth yng Nghymru.

### 1.1.3. Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno ynghylch sefydlu porthladdoedd rhydd yng Nghymru

Gwnaed y cyhoeddiad dan sylw ym mis Mai, wedi i'r ddwy Lywodraeth gytuno y byddai Llywodraeth y DU yn darparu o leiaf £26 miliwn mewn cyllid cychwynnol nad oes angen ei ad-dalu ar gyfer unrhyw borthladd rhydd sy'n cael ei sefydlu yng Nghymru. Cyhoeddwyd y byddai'r ddwy Lywodraeth hefyd yn gweithredu mewn 'partneriaeth gydradd', gan weithio gyda'i gilydd i gydlunio'r broses ar gyfer dewis safleoedd i fod yn borthladd rhydd, ac y byddai barn y ddwy yn gydraddol yn yr holl benderfyniadau yn ystod y broses weithredu, gan gynnwys y penderfyniad terfynol ynghylch dewis y safle.

Ar 1 Medi, cyhoeddwyd y Prosbectws Porthladdoedd Rhydd ar gyfer Cymru ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r prosbectws yn nodi disgwyliadau'r Llywodraethau mewn perthynas â phorthladd rhydd yng Nghymru. Mae'n annog porthladdoedd, busnesau, llywodraeth leol, a phartneriaid lleol eraill i ddod at ei gilydd i wneud cais am statws porthladd rhydd.

## 1.2. Diweddariadau eraill

| | | |
|---|---|---|
| Mai | Llywodraeth Cymru | Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia: Safbwynt Llywodraeth Cymru |
| | | Datganiad ysgrifenedig: Trafodaethau masnach y DU gyda Mecsico |
| | | Cwmni o'r Barri yn ennill cytundeb mawr i allforio anadlenyddion i'r Ffindir |
| | Llywodraeth y DU | Datganiad ar y cyd: Canlyniad y drydedd rownd o drafodaethau rhwng y DU ac India ynghylch Cytundeb Masnach Rydd |
| | | Y DU yn lansio trafodaethau ynghylch Cytundeb Masnach Rydd newydd rhwng y DU a Mecsico |
| | | Y DU a Fietnam yn cynnal cyfarfod o'u Cydbwyllgor ar Faterion Economaidd a Masnach |
| | | Prif Weinidog y DU yn penodi llysgenhadon masnach newydd y DU i Ganada, Gweriniaeth Corea a Thwrci |
| Mehefin | Llywodraeth Cymru | Trafodaethau masnach â Chyngor Cydweithrediad y Gwlff |
| | Llywodraeth y DU | Datganiad ar y cyd ynghylch deialog rhwng y DU a'r Unol Daleithiau ar ddyfodol masnach yr Iwerydd yn Aberdeen |
| | | DU yn penodi comisiynydd masnach newydd i arwain y berthynas fasnach a buddsoddi rhwng y DU ac Affrica |
| | | Y DU yn lansio trafodaethau masnach â Chyngor Cydweithrediad y Gwlff |
| | | Datganiad ar y cyd: Canlyniad y bedwaredd rownd o drafodaethau rhwng y DU ac India ynghylch Cytundeb Masnach Rydd |
| Gorffennaf | Llywodraeth Cymru | Trafodaethau Masnach ag Israel |
| | | Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Seland Newydd: Safbwynt Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodraeth y DU | Asiantaeth gyfieithu yng Nghymru yn ennill gwobr ym maes masnach ryngwladol |
| | | Y DU yn lansio trafodaethau masnach ag Israel |
| Awst | Llywodraeth Cymru | Y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach |
| | | Rheolaethau a seilwaith ffiniau ar ôl ymadael â'r UE: diweddariad |
| | | Cofnodion cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach |
| | Ymchwil y Senedd | Cytundebau masnach y DU ag Awstralia a Seland Newydd: beth yw eu harwyddocâd i Gymru? |
| Medi | Llywodraeth Cymru | Prosbectws Porthladdoedd Rhydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer Cymru |
| | Llywodraeth y DU | Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn agor cais ar y cyd am borthladd rhydd newydd yng Nghymru |
| | Global Welsh | Taith fasnach – Galwad ynghylch allforio i Ganada |

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Rhun Davies

0300 200 6259

Rhun.Davies@Senedd.Cymru